

**ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**

Dyma adroddiad gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'u gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mai 2014. Caiff ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Y Cynghorydd: David A Bithell

Plaid: Annibynnol

Ward: Johnstown

Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf ar y pwyllgorau canlynol (ffigyrau presenoldeb gan CBSW):

1. Bwrdd Gweithredol
2. Bwrdd Gweithredol Ymddiriedolaethau Corfforaethol
3. Arweinydd Grŵp Annibynnol Wreccsam
4. Bwrdd Newid
5. Gweithgor Adolygu Rheoli Gwleidyddol
6. Cyngor Llawn
7. Panel Tâl a Gwobrwyo
8. Gweithgor Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol

Rwyf ar y pwyllgorau allanol canlynol (ffigyrau presenoldeb gan y Cynghorydd):

1. Cyngor Cymuned y Rhos (Ward Johnstown)
2. Pwyllgor Rheoli Canolfan Adnoddau Johnstown
3. Llywodraethwr Ysgol Iau Johnstown
4. Cadeirydd y Llywodraethwyr Ysgol Fabanod Johnstown
5. Cyd-Gadeirydd Grŵp Cyswllt Hafod

Adran 2:Gweithgaredd Etholaeth

1. Parhau i fonitro parthau 20mya yn Johnstown a chysylltu gyda'r heddlu a'r cyngor cymuned i godi ymwybyddiaeth o oryrru.
2. Gwaith dyddiol ar nifer fawr o achosion unigol rhai ohonynt yn cynnwys ceisiadau tai a chwynion i'r Cyngor.
3. Rwyf wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â phroblemau llifogydd yn ystod y gaeaf ym Mhlas Hafan ac Ysgol Iau Johnstown.
4. Gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a chynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod pryderon trigolion ynglŷn â throstedd ac anrhefn a chynnal cyfarfodydd ffocws gyda'r trigolion. Cefnogi cyflwyniad cynllun peilot OWL Delyn a cheisio ehangu'r cynllun ymhellach yn y pentref.
5. Cynorthwyo i ganfod cyllid gan Gyngor Cymuned y Rhos ar gyfer dau olau stryd newydd oherwydd pryderon ynglŷn â throstedd ac ardal dywyll yn Lôn Worsley.
6. Dros y 12 mis diwethaf rwyf wedi cysylltu gyda Chyngor Cymuned y Rhos i sicrhau cyllid parhaus ar gyfer Meysydd Chwarae, Canolfan Gymunedol a Hebryngwyr Croesfannau Ysgol.
7. Parhau i gefnogi tenantiaid gyda chynlluniau parcio oddi ar y ffordd a goleuadau diogelwch yn Stad Moreton.
8. Gweithio gyda Chyngor Wreccsam ar nifer o faterion diogelwch difrifol o ran tresbasu ar groesfan rheilffordd leol yn Johnstown a cheisio cau'r hawl tramwy cyhoeddus i groesi.
9. Yn fy rôl fel Llywodraethwr Ysgol rwy'n gweithio'n agos gydag ysgolion lleol i gynorthwyo, cefnogi a hyrwyddo ysgolion a chodi safonau. Mae'r ddwy ysgol wedi derbyn Arolwg Estyn yn ddiweddar.
10. Cysylltu gyda'r ymddiriedolaeth gymunedol newydd i gefnogi ail agor Plas Madoc ar ôl penderfyniad i gau'r Ganolfan.
11. Cyfarfod gyda busnesau lleol ddwy waith y flwyddyn yn Stad Ddiwydiannol Vauxhall i fynd

i'r afael â phryderon lleol. Gweithio gyda Brother i sicrhau nawdd ar gyfer tîm Pêl-droed dan 11 Johnstown.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi bod yn gweithio gyda Chlwb Bowls Johnstown i dderbyn cyllid ar gyfer adeilad amlbwrpas newydd. Mae hyn wedi cynnwys nifer o gyfarfodydd gyda chyngor Wrecsam a datblygu achos busnes i dderbyn cyllid.

Adran 4: Dysgu a Datblygu

1. Mynychu sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan y cyngor ynghyd â gweithdai ynglŷn â nifer o destunau yn ystod y flwyddyn.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

1. Fel Arweinydd Grŵp Annibynnol Wrecsam, rwy'n cyfarfod yn fisol gyda'r Prif Weithredwr a swyddogion y cyngor i sicrhau bod aelodau'r grŵp yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r materion cyfredol a mynegi unrhyw feysydd o bryder yn enwedig o ran materion cyllidebol sy'n effeithio ar yr etholwyr.
2. Cyfarfod yn rheolaidd gyda rhai o Aelodau Seneddol Gogledd Cymru i drafod materion allweddol Llywodraeth Cymru a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar lywodraeth leol o ystyried y toriadau ariannol difrifol ledled Cymru.
3. Ymddwyn fel siaradwr ar ran Grŵp Annibynnol Wrecsam ar faterion allweddol yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn a'r bwrdd gweithredol gan gynnwys ymateb i'r cyfryngau.
4. Mynychu Pwyllgorau Craffu nad wyf yn aelod ohonynt i fonitro gweithgareddau'r cyngor a rhaglenni gwaith.

Llofnod y Cynghorydd: David A Bithell

Dyddiad: 28 Awst 2014